



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid: Wylfa@planninginspectorate.gov.uk
e-bost:

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010007

Dyddiad: 15 Ebrill 2019

Annwyl Syr/Fadam

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) Adran 89 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) a Rheol 17

Cais gan Horizon Nuclear Power am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd

Cais am Wybodaeth Ychwanegol

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi darllen cyflwyniadau Terfyn Amser 9. Rydym wedi gofyn yn flaenorol i'r Ymgeisydd ymateb i'r sylwadau a wnaed erbyn Terfyn Amser 9 yn ein llythyr Rheol 17 dyddiedig 3 Ebrill. Yn ogystal, mae sawl cwestiwn y mae'r Awdurdod Archwilio eisiau i'r Ymgeisydd fynd i'r afael â nhw yn benodol yn rhan o'i ymateb ehangach i Derfyn Amser 9.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn cynnwys cwestiynau ar gyfer sawl parti arall hefyd. Rhoddir isod restr lawn o'r rhai y cyfeirir cwestiynau atynt:

Yr Ymgeisydd
Cyngor Sir Ynys Môn
Y Grid Cenedlaethol
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Cyfoeth Naturiol Cymru
Partneriaeth Cynghorau Gogledd Môn
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Llywodraeth Cymru

Gofynnir am ymatebion erbyn Terfyn Amser 10, sef 17 Ebrill. Mae'r Awdurdod Archwilio yn sylweddoli nad oes llawer o amser i ymateb, ond mae eisiau sicrhau bod ganddo'r holl dystiolaeth angenrheidiol cyn i'r archwiliad ddod i ben i wneud canfyddiadau a dod i'w gasgliadau.

Yn gywir

Frances Fernandes

Frances Fernandes

Aelod Arweiniol y Panel Arolygwyr Archwilio

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>



ATODIAD A – Rheol 17, 15 Ebrill 2019

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn Amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
R17.2.1	Bioamrywiaeth		
R17.2.1.1	Yr Ymgeisydd	D10	Twmpath E Ar adeg Terfyn Amser 7, dywedodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (NT) fod yr Ymgeisydd wedi cytuno na fyddai wynebaw gogleddol a gorllewinol Twmpath E o leiaf yn cael eu hailweithio ar ôl iddynt gael eu hadeiladu gyntaf, ac y byddai unrhyw ail-weithio'n cael ei gyfyngu i dymhorau tyfu (Ebrill-Medi). Sut bydd hyn yn cael ei sicrhau?
R17.2.1.2	Yr Ymgeisydd	D10	Safleoedd Digolledu Tre'r Gof A all yr Ymgeisydd gadarnhau y bydd y safleoedd digolledu'n parhau i gael eu rheoli drwy gydol y cyfnod datgomisiynu, a sut y bydd hyn yn cael ei sicrhau?
R17.2.1.3	Yr Ymgeisydd	D10	Safleoedd Digolledu Tre'r Gof Ar adeg Terfyn Amser 7 [REP7-001] o dan Eitem 7 Materion Eraill, tud. 369, disgwyliwyd i'r Ymgeisydd ddarparu nodyn ôl-wrandawriad ynglŷn ag opsiynau cytundebol i brynu a chynnal safleoedd digolledu ecolegol. A yw'r nodyn hwn wedi cael ei gyflwyno?
R17.2.1.4	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (NWWT)	D10	Cynefinoedd Adran 7 A oes gan NWWT unrhyw sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r egwyddor o beidio â cholli nac ennill cynefinoedd Adran 7 yn llwyr, fel y disgrifir yn y Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd (LHMS)?
R17.2.1.5	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	D10	LHMS A yw'r NT yn fodlon bod y cynigion ar gyfer creu cynefin yn yr LHMS [REP8-063] yn cynnwys yr egwyddor o flaenoriaethu glaswelltiroedd a chynefinoedd sydd â'r gwerth mwyaf o ran bioamrywiaeth?
R17.2.2	Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO)		

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn Amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
R17.2.2.1	Llywodraeth Cymru (LIC) Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Cyngor Sir Ynys Môn (IACC)	D10	Erthygl 2/Atodlen 19 Ymatebwch i'r cynnig ar gyfer Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan yr Ymgeisydd mewn ymateb i Q17.2.6 [REP9-006].
R17.2.2.2	Yr Ymgeisydd	D10	Gofynion Atodlen 3 Ymatebwch gydag unrhyw ddiwygiadau awgrymedig i gyflwyniad Terfyn Amser 9 NWWT [REP9-039], lle y gwneir cynigion i newid y DCO mewn perthynas â Gofynion Atodlen 3, sef WN8, WN8[A], WN19(1) ac WN23 (2)(b) (sylwer bod paragraff f(iii) yn cyfeirio at WN23 (4) a (5), a allai fod yn gamgymeriad, mae'n ymddangos mai WN21 (4) a (5) yw'r cyfeiriad cywir), gan gyfeirio'n benodol at yr awgrymiadau ynglŷn â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> a. WN8 Amseriad a chamau'r cynllun tirwedd adeiladu; dyluniad a manylion; sefydlu a methiannau. b. WN8[A] Cynlluniau rheoli adeiladu, tirwedd a chynefinoedd. c. WN8[A] Cynlluniau rheoli adeiladu, tirwedd a chynefinoedd. ch. WN23 Cymal Cynllun Datgomisiynu'r Safle - WN23(2)(b)
R17.2.2.3	Yr Ymgeisydd	D10	Atodlen 19 Ymatebwch gydag unrhyw ddiwygiadau awgrymedig i sylwadau LIC [REP9-029], CNC [REP9-037] a IACC [REP9-031], sy'n codi pryderon ac yn cynnig geiriad diwygiedig mewn perthynas ag Atodlen 19 y DCO o ran (a) Graddfeydd amser ar gyfer cyflawni amodau; (b) Ffioedd; ac (c) Cyflawni rolau a chyfrifoldebau o fewn yr ardal rynglanw; gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> a. Y Papur Sefyllfa ar y Cyd rhwng LIC, CNC a IACC a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 7 b. Cynnig i ddileu paragraff 4 newydd yn Atodlen 19

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn Amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			<ul style="list-style-type: none"> c. Y diffiniad o awdurdod cyflawni – paragraff 3.1.4 [REP9-037] ch. Sylwadau CNC ar ofynion ychwanegol ym mharagraffau 3.1.5 [REP9-037] d. Sylwadau CNC ar y diffiniad o ymgynghorai gwaith morol ym mharagraff 3.1.6 [REP9-037] dd. Cais CNC bod Gofyniad WN24 yn cael ei ddiffinio fel 'gofyniad mawr' a bod y cyfnod ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth bellach yn Atodlen 19 Paragraff 1(1) yn cael ei gynyddu - paragraff 3.1.7 – 3.1.8 [REP9-037] e. Ceisiadau CNC ym mharagraffau 3.1.14 a 3.1.16 [REP9-037] ynglŷn ag Atodlen 19 Paragraff 2 f. Cynnig Ffi IACC ar gyfer Cyflawni Gofynion yn Atodiad C [REP9-031]
R17.2.2.4	Yr Ymgeisydd	D10	<p>DCO Erthygl 74 tir gweithredol at ddibenion Deddf 1990 Ymatebwch i safbwynt IACC na ddylai'r safleoedd datblygu cysylltiedig gael eu hystyried yn dir gweithredol at ddibenion yr ymgymeriad cynhyrchu trydan gan nad ydynt yn cael eu defnyddio nac yn ofynnol at ddibenion cynhyrchu trydan. Maen nhw'n ofynnol dim ond i adeiladu'r orsaf bŵer a byddai caniatáu iddynt elwa o hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer cynhyrchu trydan yn afresymol. [REP9-031].</p>
R17.2.2.5	IACC	D10	<p>DCO Erthygl 74 tir gweithredol at ddibenion Deddf 1990</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Pa ddatblygiad y gellid ei gynnal trwy hawliau datblygu a ganiateir pe byddai'r tir yn cael ei ystyried yn dir gweithredol? b. Sut a ble y dylai'r DCO gael ei ddiwygio i oresgyn y mater hwn?
R17.2.2.6	Yr Ymgeisydd	D10	<p>Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) Ymatebwch i'r amryw faterion a godwyd gan yr NDA yn ei gyflwyniad ar adeg Terfyn Amser 9 [REP9-040]</p>
R17.2.3	Yr Amgylchedd Hanesyddol		

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn Amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
R17.2.3.1	Yr Ymgeisydd	D10	<p>Gwnewch sylwadau yng ngoleuni'r profion a amlinellir yn Adran 5.8 Yr Amgylchedd Hanesyddol yn EN1 i sylwadau LIC ym mharagraff C ei hymateb i R17.4.2 [REP9-029] mewn perthynas â'r Adroddiadau Cryno a'r Cynlluniau Safle Archaeoleg ar gyfer Gwaith Paratoi a Chlirio Safle (SPC) Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd (WNDA) a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 8, sef: "Bydd Cadw yn ystyried yr ardaloedd a amlygwyd yn y cynlluniau ar gyfer eu dynodi. Mae Cadw wedi cynnal ymarfer sydd wedi dod i'r casgliad ei bod yn ymddangos yn debygol y bydd yr ardaloedd hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu dynodi. Pe byddai'r ardaloedd hyn yn cael eu dynodi, byddai hyn yn darparu ffin ddiffiniedig lle y byddai'r gweddillion archaeolegol sydd wedi'u lleoli ynddi yn cael eu hamddiffyn yn gyfreithiol rhag difrod neu aflonyddu. Pe byddai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen, byddai'n rhaid i'r Ymgeisydd gael Caniatâd Heneb Gofrestredig gan Lywodraeth Cymru / Cadw i wneud gwaith cloddio ychwanegol. Mae'r caniatâd hwn yn fater datganoledig a byddai'n cael ei benderfynu gan Cadw ar ran Gweinidogion Cymru.</p> <p>Mae ystyriaeth Cadw yn ymwneud â'r tri safle o werth archaeolegol uchel a amlygwyd yn y cynlluniau yn unig. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys WNDA gyfan, felly ystyrir ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol i'r DCO gynnwys Gofyniad wedi'i eirio'n addas (gweler uchod) ynglŷn â darpariaethau archaeolegol ar gyfer gweddill WNDA."</p>
R17.2.3.2	Yr Ymgeisydd	D10	<p>Heb ragfarnu, beth fyddai'r goblygiadau canlyniadol posibl i'r:</p> <ol style="list-style-type: none"> Datganiad Amgylcheddol (ES) a'r DCO; a chyflawni'r prosiect <p>pe byddai'r safleoedd hyn yn cael eu Cofrestru?</p>
R17.2.3.3	Llywodraeth Cymru	D10	<p>Gan gyfeirio at ei sylwadau ym mharagraff C ei hymateb i R17.4.2 [REP9-0029] mewn perthynas â'r Adroddiadau Cryno a'r Cynlluniau Safle Archaeoleg ar gyfer SPC WNDA a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 8, ac yng ngoleuni'r profion a amlinellir yn Adran 5.8 Yr Amgylchedd Hanesyddol yn EN1, a wnaiff LIC sylwadau ychwanegol ar</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn Amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
			oblygiadau cofrestru safleoedd archaeolegol y cydnabyddir eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol ar gyfer cyflawni prosiect Wylfa Newydd?
R17.2.3.4	Yr Ymgeisydd	D10	<p>Datganiad Dull Adeiladu</p> <p>Ymatebwch i geisiadau IACC [REP9-031], sef:</p> <ol style="list-style-type: none"> y dylai'r Awdurdod Archwilio fynnu cadarnhad y bydd Horizon yn addasu Twmpath D ac yn cadw a gwella llwybr y dreif gwreiddiol i Erddi Cestyll. y dylai'r Awdurdod Archwilio fynnu cadarnhad bod Horizon yn ymrwymo i gwblhau'r gwaith cloddwaith, gosod pridd a phlannu hadau ar lethrau gorllewinol a gogleddol Twmpath E yn gynnar yn ystod y cyfnod adeiladu, i gyfyngu ar yr effeithiau ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
R17.2.4	Tirwedd a Gweledol		
R17.2.4.1	Yr Ymgeisydd	D10	<p>Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd</p> <p>Ymatebwch i sylwadau IACC yn adran 5 ei gyflwyniad Terfyn Amser 9 [REP9-031] – Cynnal a chadw ac amnewid llystyfiant a blennir; yn enwedig y diffiniad a awgrymwyd o darddiad lleol a rhanbarthol.</p>
R17.2.5	Cwestiynau Cyffredinol		
R17.2.5.1	Yr Ymgeisydd	D10	Disgwylir 'Canllaw i'r Cais' terfynol erbyn Terfyn Amser 10. Diweddarwch adrannau 1 a 2 y ddogfen hon i adlewyrchu newidiadau a wnaed i'r cais yn ystod yr archwiliad (e.e. dileu/diwygio 2.3.23 ynglŷn â'r cysylltiad grid; diweddarau tablau 2-4 a 2-5 i adlewyrchu newidiadau i ddogfennau a'u diwygio i gynnwys cyfeiriad at A106). Dylech gynnwys adran ychwanegol (2.6) sy'n manylu ar unrhyw ddiwygiadau i'r cais ac yn amlinellu manylion y cais fel y'i harchwiliwyd. Dylech ddarparu fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau.
R17.2.5.2	Yr Ymgeisydd	D10	Rhowch ddiweddariad terfynol ar gynnydd mewn perthynas â chydysniadau a thrwyddedau eraill.
R17.2.5.3	Yr Ymgeisydd	D10	Ymatebwch i'r sylwadau a wnaed gan Unigolion â Buddiant ar adeg Terfyn Amser 9.

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Terfyn Amser ar gyfer Ymateb:	Cwestiwn:
R17.2.5.4	Yr Ymgeisydd	D10	Darparwch gopi o'r sleid PowerPoint a fewnblannwyd yn ymateb R17 i Gwestiwn 17.8.4 [REP9-006] ar adeg Terfyn Amser 9.
R17.2.5.5	Y Grid Cenedlaethol	D10	Ymatebwch i sylwadau'r Ymgeisydd mewn perthynas ag R17.8.4 ar adeg Terfyn Amser 9 [REP9-006]
R17.2.5.6	Yr Ymgeisydd	D10	Mae paragraff 1.2.3 (ar dudalen 57 o 58) REP8-012, sy'n ymwneud â sylwadau Dr Dean, yn datgan "...Ar hyn o bryd, nid yw hyfywedd (neu fel arall) Cysylltiad Grid Wylfa Newydd yn ystyriaeth berthnasol gerbron yr Awdurdod Archwilio...". Esboniwch y safbwynt hwn, ac wrth wneud hynny ewch i'r afael ag unrhyw gefndir cyfreithiol neu bolisi sy'n sail iddo.
R17.2.5.7	Yr Ymgeisydd a Phartneriaeth Cynghorau Gogledd Môn	D10	Rhowch ddatganiad ar y cyd mewn ymateb i gyflwyniad Partneriaeth Cynghorau Gogledd Môn ar adeg Terfyn Amser 9 [REP9-033] i egluro'r sefyllfa o ran amcangyfrifon recriwtio 'gweithlu lleol' ar gyfer Gogledd Môn/Ynys Môn ac unrhyw oblygiadau canlyniadol posibl i'r cais.
R17.2.6	Dyluniad Da		
R17.2.6.1	Yr Ymgeisydd	D10	Esboniwch ble a sut mae'r ymrwymiad i ymgynghori â Chomisiwn Dylunio Cymru yn cael ei sicrhau yn y DCO, ac ewch i'r afael â'r mater hwn os nad yw wedi'i drin yn ddigonol.
R17.2.7	Traffig a Thrafnidiaeth		
R17.2.7.1	Yr Ymgeisydd a IACC	D10	Darparwch ddatganiad ar y cyd sy'n amlinellu safbwynt cytunedig ynglŷn â chais IACC i ailddarparu ardal droi yn y gilfan gerllaw'r fynedfa arfaethedig i WNDA, a godwyd yng nghyflwyniad IACC ar adeg Terfyn Amser 9 (tudalennau 9/10). Yn arbennig, a all IACC ddweud beth fyddai ei safbwynt pe na byddai'r ardal droi yn cael ei hailddarparu?



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer 0303 444 5000
Services: Wylfa@planninginspectorate.gov.uk
e-mail:

Your Ref:

Our Ref: EN010007

Date: 15 April 2019

Dear Sir/Madam

**Planning Act 2008 (as amended) Section 89 and The Infrastructure Planning
(Examination Procedure) Rules 2010 (as amended) and Rule 17**

**Application by Horizon Nuclear Power for an Order Granting Development
Consent for the Wylfa Newydd Project**

Request for Further Information

The ExA has read the submissions at Deadline 9. We have previously requested the Applicant to respond to the comments raised at Deadline 9 in our Rule 17 letter of 3 April. In addition, there are several questions which the ExA wishes the Applicant to specifically address as part of its wider response to Deadline 9.

The ExA also includes questions for several other parties. A full list of those at whom questions are addressed is set out below:

The Applicant
IACC
National Grid
National Trust
Natural Resources Wales
North Anglesey Council Partnership
North Wales Wildlife Trust
Welsh Government

Responses are requested by Deadline 10, 17 April. The ExA appreciates that there is limited time to respond, but it wants to ensure that it has all of the evidence necessary by the close of the examination to make findings and draw its conclusions.

Yours faithfully

Frances Fernandes

Frances Fernandes
Lead Member of the Panel of Examining Inspectors



Reference	Respondent:	Deadline for Response:	Question:
R17.2.1	Biodiversity		
R17.2.1.1	Applicant	D10	Mound E At D7 NT stated that the Applicant agreed that as a minimum the northern and western faces of Mound E are not reworked once initially constructed and that any reworking is restricted to growing seasons (April-September). How is this secured?
R17.2.1.2	Applicant	D10	Tre'r Gof Compensation sites Can the Applicant confirm that management of the compensation sites will continue through decommissioning, and how is this secured?
R17.2.1.3	Applicant	D10	Tre'r Gof Compensation sites At D7 [REP7-001] under Item 7 Other Matters, p369, the Applicant was to provide a post-hearing note regarding contractual options to purchase and maintain ecological compensation sites. Has this note been submitted?
R17.2.1.4	NWWT	D10	S7 Habitats Does NWWT have any further comments regarding the principle of no net loss or net gain of S7 habitats as described in the LHMS?
R17.2.1.5	National Trust	D10	LHMS Is NT content that the LHMS [REP8-063] habitat creation proposals has the principle to prioritise grasslands and habitats of highest biodiversity value?
R17.2.2	Development Consent Order		
R17.2.2.1	Welsh Government	D10	Article 2/Schedule 19 Respond to the proposal for a Memorandum of Understanding by the

Reference	Respondent:	Deadline for Response:	Question:
	NRW IACC		Applicant in response to Q17.2.6 [REP9-006].
R17.2.2.2	Applicant	D10	<p>Schedule 3 Requirements</p> <p>Respond with any suggested amendments to NWWT's D9 submission [REP9-039] in which proposals are made to change the DCO in respect of Schedule 3 Requirements WN8, WN8[A], WN19(1) and WN23 (2)(b) (note that para. f(iii) refers to WN23 (4) and (5), which may be in error, WN21 (4) and (5) appears to be the correct reference), with specific reference to the suggestions in relation to:</p> <ol style="list-style-type: none"> WN8 Construction landscape scheme timing and phasing; design and specification; establishment and failures. WN8[A] Construction landscape and habitat management schemes. WN8[A] Construction landscape and habitat management schemes. WN23 Site Decommissioning Scheme clause - WN23(2)(b)
R17.2.2.3	Applicant	D10	<p>Schedule 19</p> <p>Respond with any suggested amendments to the comments of WG [REP9-029], NRW [REP9-037] and IACC [REP9-031] raising concerns and proposing revised wording to DCO Schedule 19 in respect of (a) Timescales for discharging conditions; (b) Fees; and (c) Discharging roles and responsibilities within the inter-tidal area; including:</p> <ol style="list-style-type: none"> The WG, NRW and IACC Joint Position Paper submitted at D7 Proposed deletion of new paragraph 4 in Schedule 19 Definition of discharging authority - para. 3.1.4 [REP9-037] NRW comments on additional requirements at paras. 3.1.5 [REP9-037] NRW comments on definition of marine works consultee at para 3.1.6 [REP9-037]

Reference	Respondent:	Deadline for Response:	Question:
			<ul style="list-style-type: none"> f. NRW request that Requirement WN24 be defined as a 'major requirement' and the period for responses for further information in Schedule 19 Paragraph 1(1) be increased - para 3.1.7 – 3.1.8 [REP9-037] g. NRW requests in para 3.1.14 and 3.1.16 [REP9-037] in relation to Schedule 19 Paragraph 2 h. IACC's Annexe C Fee Proposal for Discharging Requirements [REP9-031]
R17.2.2.4	Applicant	D10	DCO Article 74 operational land for purposes of 1990 Act Respond to IACC's position that the associated development sites should not be considered as operational land for the purposes of the electricity generating undertaking as they are not used or required for the purposes of generating electricity. They are required only for the construction of the power station and to allow them to benefit from permitted development rights for generation of electricity is unreasonable. [REP9-031].
R17.2.2.5	IACC	D10	DCO Article 74 operational land for purposes of 1990 Act <ul style="list-style-type: none"> a. What development could be undertaken through permitted development rights if the land was to be considered as operational land? b. How and where should the drafting of the DCO be amended to overcome this issue?
R17.2.2.6	Applicant	D10	NDA Respond to the various matters raised by NDA in its D9 submission [REP9-040]
R17.2.3	Historic Environment		
R17.2.3.1	Applicant	D10	Comment in light of the tests set out in Section 5.8 Historic Environment of EN1 to WG's comments in paragraph C of its response to R17.4.2 [REP9-029] in relation to the SPC WNDA Archaeology Site Summary Reports and Plans submitted at D8 that: "Cadw will be considering the areas highlighted in the plans for designation. Cadw

Reference	Respondent:	Deadline for Response:	Question:
			<p>have carried out an exercise which has concluded that it seems likely that these areas will meet the criteria for designation. Should these areas be designated, this will provide a defined boundary within which the archaeological remains would be legally protected from damage or disturbance. Should the development proceed, then the Applicant would have to obtain Scheduled Monument Consent from Welsh Government / Cadw to undertake further excavation work. This consent is a devolved matter and would be determined by Cadw on behalf of the Welsh Minsters.</p> <p>Cadw's consideration only relates to the three sites of high archaeological value identified in the plans. However, this does not cover the whole of the WNDA and therefore and it is considered necessary and appropriate for the DCO to include suitably worded Requirement (see above) in relation to archaeological provisions for the remainder of the WNDA."</p>
R17.2.3.2	Applicant	D10	<p>Without prejudice, what would be the potential consequent implications for:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. the ES and DCO; and b. project delivery <p>if these sites were Scheduled?</p>
R17.2.3.3	Welsh Government	D10	<p>With reference to its comments in paragraph C of its response to R17.4.2 [REP9-0029] in relation to the WNDA SPC Archaeology Site Summary Reports and Plans submitted at D8 and in light of the tests set out in Section 5.8 Historic Environment of EN1, will WG comment further on the implications of scheduling archaeological sites recognised as being of national importance for the delivery of the Wylfa Newydd project?</p>
R17.2.3.4	Applicant	D10	<p>Construction Method Statement</p> <p>Respond to IACC's requests [REP9-031] that:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. the Examining Authority should require confirmation that Horizon will modify Mound D and retain and enhance the route of the

Reference	Respondent:	Deadline for Response:	Question:
			original driveway to Cestyll Garden. b. the Examining Authority should require confirmation that Horizon is committing to completing the earthworks, soiling and seeding of the western and northern slopes of Mound E at an early stage in the construction phase, to limit impacts on National Trust land.
R17.2.4	Landscape and Visual		
R17.2.4.1	Applicant	D10	Landscape and Habitats Management Strategy Respond to IACC's comments in section 5 of their D9 submission [REP9-031] - Maintenance and replacement of planting; particularly to the suggested definition of local and regional provenance.
R17.2.5	General Questions		
R17.2.5.1	Applicant	D10	A final 'Guide to the Application' is due at D10. Update sections 1 and 2 of this document to reflect changes that have been made to the application during the examination (eg removal/amendment to 2.3.23 re the grid connection; update to tables 2-4 and 2-5 to reflect changes to documents and amended to include reference to S106). Please include a further section (2.6) detailing any amendments to the application and setting out the details of the application as examined. Provide both clean and track change versions.
R17.2.5.2	Applicant	D10	Provide a final update on progress with Other consents and licenses.
R17.2.5.3	Applicant	D10	Respond to the comments made by IPs at D9.
R17.2.5.4	Applicant	D10	Provide a copy of the powerpoint slide embedded into D9 R17 response at Question 17.8.4 [REP9-006]
R17.2.5.5	National Grid	D10	Respond to the Applicants comments in relation to R17.8.4 at D9 [REP9-006]
R17.2.5.6	Applicant	D10	Paragraph 1.2.3 (on page 57 of 58) of REP8-012 in relation to Dr Dean's comments states that "... <i>At present, the viability (or otherwise) of Wylfa Newydd's Grid Connection is not a relevant consideration before the ExA...</i> ". Please explain this view, and in doing so address any legal or policy background to it.
R17.2.5.7	Applicant and	D10	Provide a joint statement in response to North Anglesey Council

Reference	Respondent:	Deadline for Response:	Question:
	North Anglesey Council Partnership		Partnership's D9 submission [REP9-033] to clarify the situation with regards to the 'local workforce' recruitment estimates for North Anglesey/Anglesey and any implications that this may have for the application.
R17.2.6	Good Design		
R17.2.6.1	Applicant	D10	Explain where and how the commitment to consult with Design Commission for Wales is secured in the DCO and address this issue if it is not adequately covered.
R17.2.7	Traffic and Transport		
R17.2.7.1	Applicant and IACC	D10	Provide a joint statement setting out an agreed position with regards to the IACC's request to re-provide a turning head in the layby adjacent to the proposed access to the WNDA raised in the IACC's D9 submission (pages 9/10). In particular can the IACC advise what their position would be if the turning head was not re-provided.



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

This communication does not constitute legal advice.
Please view our [Privacy Notice](#) before sending information to the Planning Inspectorate.

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>

